| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad** | **6 Rhagfyr 2011** |
| **Pwnc** | **Datganiad ar Gyllideb a Strategaeth ddraft 2012 – 13 gan y Comisiynwyr** |
| **Deilydd Portffolio** | **Byron Davies** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Interim Section 151 Officer** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Gill Lewis** |

## A – Cefndir

**1.1** Fel bydd aelodau'n cofio, y gyllideb gyfredol, 2011/12, oedd yr un mwyaf heriol a wynebodd yr Awdurdod, gyda lleihad arian flwyddyn ar flwyddyn o 1.7%. Roedd hyn yn erbyn cefndir o ddarlun economaidd anodd iawn yn genedlaethol a chyfyngiad difrifol yng ngwariant sector gyhoeddus – fel y cyhoeddwyd yn y CSR. Mewn termau cymharol, roedd llywodraeth leol yng Nhgymru wedi gwneud llawer gwell na Lloegr ond roedd yr heriau'n codi, nid yn unig am 2011/12 ond i mewn i'r tymor canolig, ond yn rhy amlwg a real.

**1.2** Mae'r economi'n parhau i fod o gonsyrn, gyda thyfiant yn parhau'n araf iawn a'r farchnad dai yn parhau i aros yn ei hunfan. Mae pryderon ddisyfyd 2008 wedi symud i ffwrdd o sefydlogrwydd sefydliadau ariannol i allu llywodraethau i fynd i'r afael â'u problemau diffyg. Mae'r Parth euro, yn enwedig, yn gwynebu problemau o gwmpas Gwlad Groeg a'r Eidal, gydag effaith ddilynol ddisefydlogol ar y marchnadoedd ariannol, tra mae America'n parhau i ddelio â cholli ei statws AAA a thyfiant eithriadol o araf. Nid yw'r sector gyhoeddus gydag imiwnedd o'r pryderon ehangach yma a rydym yn gweld yr effaith ym meusydd fel pwysau chwyddiannol, anhawster wrth wireddu derbyniadau cyfalaf, cynnwrf ynglyn â'r gronfa bensiwn a lleihad yn yr incwm buddsoddi. Yn ogystal, yn nhermau cyffredinol, tra mae toriadau llym wedi eu gwneud i gyllideb y sector gyhoeddus, ni welwyd yr effaith gyffredinol a ddymunir ar y diffyg oherwydd y lleihad yn refeniw treth a achoswyd gan y diffyg tyfiant. Tra nad oes arwydd wedi ei dderbyn, ni allwn ddiystyru tynhau pellach o wariant cyhoeddus.

**1.3** Mae'r Datganiad Cyllideb a Strategaeth hwn gan y Comisiynwyr yn amlinellu canllawiau cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn 2012/13 fel sail ar gyfer gweithredu gan swyddogion ac ymgynghoriad gyda'r aelodau.

**B – Y Sefyllfa Gyfredol**

**2.1** Mae lefel Treth Gyngor Band D y Cyngor ar hyn o bryd yn £855.90, sef un o'r isaf yng Nghymru, a oedd yn cynrychioli cynnydd o 3.7% yn y Dreth Gyngor o gymharu â'r flwyddyn ariannol gynt.

**2.2** Roedd y cynnydd yn y Dreth Gyngor Band D (heb gynnwys elfennau o'r Dreth Gyngor sydd dan reolaeth yr Awdurdod Heddlu a Chynghorau Cymuned) ychydig yn is na'r gyfradd chwyddiant cyfredol o 4 i 5% ac roedd yn un o'r codiadau mwyaf gan unrhyw Awdurdod ledled Cymru. Wrth bennu'r cynnydd hwn ar gyfer y flwyddyn gyfredol, mae'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig tra'n cydbwyso galwadau ar dalwyr y dreth gyngor ar adeg pan fo arian yn dynn. Mae gwybodaeth eglurhaol ar y Dreth Gyngor i'w gweld yn Atodiad A.

**2.3** O'r herwydd, bydd y Comisiynwyr yn cymryd y sefyllfa gyfredol i ystyriaeth yn y broses gyllidebol ar gyfer 2012/13 gan dynnu ar y wybodaeth sydd gan Gynghorwyr Môn trwy'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol a'r Pwyllgorau Sgriwtini. Bydd y Comisiynwyr hefyd yn ymgysylltu gyda dinasyddion a chymunedau trwy broses cynllunio corfforaethol a fydd yn nodi eu sylwadau. Dechreuodd y broses hon ym mis Hydref 2011.

**2.4** I roi'r heriau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn eu cyd-destun wrth iddo bennu cyllideb ar gyfer 2012/13, mae'n werth cadw mewn cof ganlyniadau 2010/11 (Atodiad B) a'r cefndir i gyllideb eleni 2011/12. Roedd cyllideb ar gyfer eleni yn heriol iawn o gofio'r gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn o £1.6m (1.7%. ar ôl addasiad). Roedd hynny'n golygu y bu'n rhaid i'r Awdurdod gymryd camau sylweddol a arweiniodd at ddatblygu'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy (RhBFf) ymhellach er mwyn sicrhau arbedion o £11m dros 3 blynedd. Yn y RhBFf, nodwyd meysydd yn yr Awdurdod a chanddynt botensial i yrru arbedion a chynhyrchu incwm ychwanegol. Mae hon yn rhaglen sy'n datblygu'n gyson ac mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i gwrdd â'r heriau y mae'n eu hwynebu yn awr ac yn y 4 blynedd nesaf. Nodwyd arbedion o £3.5m ar gyfer 2011/12, ac roedd £3.0m ohonynt yn rhan o'r RhBFf.

Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r Comisiynwyr a'r Cynghorwyr yn ymrwymedig i weithio gyda swyddogion i ddarparu cyllideb gytbwys.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i weld a fydd modd gwneud arbedion pellach yn 2011/12 i leihau effeithiau yn 2012/13 ac mae'r holl gronfeydd wrth gefn wrthi'n cael eu hadolygu i weld a oes unrhyw sgôp i ddefnyddio balansau yn nhrafodaethau 2012/13. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig cofio bod yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr (AGC) wedi rhoi arwyddion o wariant ar gyfer 2013/14 a 2014/15 sydd yr un mor heriol ac o'r herwydd, nid yw defnyddio arian wrth gefn ar unrhyw raddfa i liniaru yn erbyn lefel yr arbedion sydd ei angen yn

opsiwn ymarferol. Gallai hyn adael yr Awdurdod mewn sefyllfa fregus pe ceid pwysau annisgwyl o ran gwariant a beirniadaeth o bosib gan reoleiddwyr allanol.

## C – Y Cefndir Economaidd a Pholisi

**3.1** Ysgrifennir y datganiad cyllideb hwn yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol sy’n parhau yn seiliedig ar y gyllideb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) ym mis Chwefror 2011 am y cyfnod hyd at 2013/14. Cadarnhawyd y cyd-destun hwn fel rhan o gyhoeddiad cyllideb y Canghellor ym Mawrth 2011. Roedd rhai o’r prif ddangosyddion o’r datganiad hwn fel a ganlyn:

- Rhagolygon twf ar gyfer 2012 yn disgyn o 2.6% i 2.5% (Dylid nodi bod y ffigwr hwn wedi ei ddiwygio’n sylweddol tuag at i lawr ers hynny).
- Chwyddiant i barhau rhwng 4% a 5% (Y gyfradd chwyddiant ar gyfer mis Hydref 2011 gan ddefnyddio’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw 5%).
- Rhagolygon y bydd y ddyled genedlaethol yn 60% o’r incwm cenedlaethol yn 2011.
- Y ddyled genedlaethol yn codi i 71% o’r incwm cenedlaethol yn 2012.

**3.2** Ar adeg cyhoeddi setliad 2011/12, rhoddwyd ffigyrau arwyddol ar gyfer 2012/13 a 2013/14.

**Rhagamcanion Setliad**

| | Setliad 11-12 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Setliad 11-12 terfynol ar ôl gwneud addasiad am drosglwyddiadau** | **Arwydd o Setliad 12-13** | **Symudiad** | **Setliad Amodol 12-13** | **Symudiad o arwyddion 12-13 yn setliad 11-12** | **Symudiad rhwng setliad 11-12 a setliad amodol 12-13** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyllid Trysorlys Cyfun | 93,372 | 93,088 | -284 | 92,300 | -788 | -1,072 |

Y rhain yw'r ffigyrau ar gyfer Cyllid Trysorlys Cyfun (CTC), cyfanswm y Grant Cymorth Refeniw a'r Trethi Annomestig a ail-ddosbarthwyd. Yn arwyddocaol, roeddynt yn dangos CTC Ynys Môn yn disgyn £284k (0.4%) mewn termau arian yn 2012/13 pan oedd y cyfanswm ar gyfer Cymru yn codi. Adlewyrchwyd hyn yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw ar y pryd. Yn y setliad amodol a gyhoeddwyd ar 18 Hydref, mae'r sefyllfa hon wedi gwaethygu gan £788k ychwanegol ac mae ffigwr ar gyfer CTC bellach yn ostyngiad o 1.1% sy'n cyfateb i £1.07m mewn termau arian.

**3.3** Mae LIC wedi sefydlu trefniadau diogelu ar gyfer Addysg sy'n cyfateb i 1% mwy na'r cynnydd yn y dyraniad cyllid refeniw ar gyfer LIC gan lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer newid demograffig. Mae LIC yn disgwyl y bydd yr arian hwn yn cael ei basio ymlaen i'r ysgolion, gyda threfniadau monitro yn cael eu datblygu i ganolbwyntio ar gyllidebau ysgolion, i sicrhau y gellir dangos bod yr ymrwymiad wedi ei gyflawni. I'r Cyngor Sir, mae cynnydd o 1% mewn cyllidebau ysgol yn cyfateb i £327k (net). Mae LIC hefyd wedi sefydlu trefniadau diogelu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cyfateb i 1%. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £260k yn y gyllideb (net). Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn cynrychioli mwy na hanner y gyllideb net.

**3.4** Mae LIC yn cydnabod y bydd diogelu'r gwasanaethau hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar Awdurdodau Lleol. Mae'n disgwyl i Awdurdodau Lleol wneud defnydd gofalus o ffynonellau cyllido eraill a defnyddio ffrydiau incwm o ffioedd a thaliadau.

**3.5** Mae hyn yn taro Cyngor Sir Ynys Môn ddwywaith, gyda gostyngiad yn y CTC (os caiff y gyllideb amodol ei chadarnhau) a'r ffaith bod angen dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd o lai na 50% o'i gyllideb.

## Ch – Rhagdybiaethau Cynllunio

**4.1** Mae'r setliad amodol a'r blaenarwyddion wedi eu cyhoeddi a'r rhain yw'r rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer CTC. Dylid nodi y bydd data yn newid rhwng rŵan ac amser y setliad terfynol.

| 2011-12 (wedi ei addasu) | | 2012-13 | Newid o 2011-12 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| **£000s** | | **£000s** | **£000s/%** | **£000s** | **£000s** |
| 93,372 | Cyllid Trysorlys Cyfun | 92,301 | -1,071/ -1.1% | 93,370 | 93,596 |
| 120,984 | Asesiad Gwario Safonol | 121,146 | +162/ +0.1% | 122,834 | 123,796 |

**4.2** Y rhagdybiaeth ar gyfer y Dreth Gyngor yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw yw cynnydd o 5%. Mae pob cynnydd 1% yn dod â £250k i mewn.

**4.3** Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r adolygiad tâl a graddfeydd arfaethedig wedi bod yn un o'r risgiau mwyaf sylweddol ac yn un o'r elfennau mwyaf ansicr yn y gyllideb. Y rhagdybiaeth gyfredol, i bwrpas cynllunio, yw y bydd y cynigion cyfredol fel yr oeddent ar Chwefror 2011 yn parhau. Bydd angen cadarnhau hyn.

**4.4** Yn seiliedig ar y Setliad Amodol ac ar y rhagdybiaethau sylfaenol yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw, rhagwelir y bydd angen toriadau fel a ganlyn:-

| **Toriadau Angenrheidiol** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|
| Yn seiliedig ar gynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor | £4.7m | £3.0m | £4.4m |
| Ar 2% | £4.5m | £2.8m | £4.2m |
| Ar 3% | £4.2m | £2.5m | £3.9m |
| Ar 4% | £4.0m | £2.2m | £3.6m |
| Ar 5% | £3.7m | £2.0m | £3.3m |

Mae hyn yn golygu, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, a chan dybio y bydd y cynnydd yn y dreth gyngor oddeutu 3% i 5%, y bydd angen toriadau oddeutu £3.7m i £4.2 y flwyddyn nesaf.

Cedwir y bwlch yn y gyllideb dan adolygiad gan addasu'r targed arbedion fol bo'r broses cyllidebu yn mynd rhagddo.

Dylid nodi y bydd rhaid ychwanegu'r arbedion na chawsant eu cyflawni yn y RhBFf ar gyfer eleni at y targed ar gyfer toriadau.

**4.5** Y tybiaethau niwtral ar gyfer chwyddiant yw:

- Dim codiad cyflog
- Cynnydd o 0.5% ar gyfer cyfraniadau pensiwn
- Cynnydd gwirioneddol mewn chwyddiant lle mae'r rhain ofynnol drwy gyfraith neu'n unol â chontract; ar gyfer trethi annomestig ac ati
- Chwyddiant cyfredol ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau eraill

Bydd cynnydd dewisol yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses gyllidebol.

**4.6** Mae'r patrwm o ostyngiadau yn parhau yn y setliad amodol ar gyfer adnoddau cyfalaf. Torrwyd y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol o £5.4m i £4.4m yn y flwyddyn gyfredol. Y ffigyrau newydd yw £4.1m ar gyfer 2012/12 ac o gwmpas £3.6m yn 2013/14.

**4.7** Mae'r sefyllfa o ran yr arian wrth gefn fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf i'w gweld yn Atodiad B. Y rhagdybiaeth gyfredol yw y bydd angen rhwng £4.0m a £4.5m yn y Balansau Cyffredinol gan ddibynnu ar y risgiau yn y gyllideb a gymeradwywyd. Mae'r rhagamcanion cyfredol ar gyfer 31 Mawrth 2012 yn uwch na hynny. Yn ogystal, mae sgôp i ryddhau rhywfaint o arian o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Bydd y Bwrdd Comisiynwyr yn ystyried adroddiad.

**D – Amcanion Polisi'r Comisiynwyr**

**5.1** Mae'r Comisiynwyr yn ystyried bod angen atgyfnerthu'r pwyslais ar Ddatblygu Economaidd a Thwristiaeth gyda threfniadau rheoli yn cael eu hadolygu i gynorthwyo a manteisio ar y statws Parth Menter a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Y nod fydd creu cyflogaeth a chyfleoedd i ysgolion, dinasyddion a chymunedau yn Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru a sefydlu cyswllt gyda'r sectorau academaidd a phreifat i gyflawni'r amcan hwn. Bydd y Comisiynwyr yn anelu at ddilyn disgwyliadau LlC ar gyfer cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol a thargedau eraill.

**5.2** Mae'r Comisiynwyr yn credu bod angen i'r canol corfforaethol fod yn rhan gref o'r broses o newid i wella llywodraethu corfforaethol. O'r herwydd, adolygir capasiti a galluogrwydd y canol corfforaethol i roi sylw i weithio'n fwy effeithiol ar lefel swyddogion yn y meysydd polisi, gwasanaethau democrataidd, adnoddau dynol, cyllid, cyfreithiol, TGCh, eiddo, datblygu economaidd a thwristiaeth, cydweithio, partneriaethau a chomisiynu gan y sector cyhoeddus/preifat.

**5.3** Bydd y Comisiynwyr yn rhoi sylw i'r isod mewn ymdrech i ostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor Band D cymaint â phosib, yn gyson gyda'r nod o gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau i ddinasyddion a chymunedau Ynys Môn:

- Nodi unrhyw ffynonellau refeniw eraill trwy effeithlonrwydd a staff ac/neu arbedion cynhyrchiant dechnoleg;
- Rhoi sylw i fforddiadwyedd telerau ac amodau staff o ran lwfansau ceir a thaliadau diswyddo gwirfoddol a statudol;
- Adolygu ac, os oes modd, gostwng y gwariant ar ymgynghorwyr a staff asiantaeth ac ail-leoli staff mewnol;
- Edrych ar y posibilrwydd o gyllid unwaith ac am byth o falansau a chronfeydd wrth gefn a gwerthu asedau i gynorthwyo'r trosglwyddiad i wasanaethau mwy effeithlon;
- Adolygu trefniadau pwrcasu, technoleg wedi ei huwchraddio ar gyfer trafodion a thrawsnewid; ac opsiynau i ryddhau asedau;
- Comisiynu gan awdurdodau lleol eraill ac/neu'r sector preifat lle mae hynny'n briodol i sicrhau arbedion;

- Adolygu'r holl opsiynau cyfredol a newydd ar gyfer codi am wasanaethau lle mae hynny'n briodol;
- Cryfhau'r capasiti ar gyfer rheolaeth gorfforaethol fel y gellir denu arian grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi swyddi a gyllidir gyda grantiau ac i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau;
- Adolygu'r gwasanaethau cefnogaeth Addysg a ddarperir ar hyn o bryd gan y Cyngor a Cynnal.

**5.4** Yn codi o'r uchod, mae'r Comisiynwyr wedi gofyn i holl adrannau'r Cyngor nodi gostyngiad gwirfoddol o 5% (gyda'r canlyniadau). Bydd yr arbediad 5% hwn yn seiliedig ar y gwariant gros. Maent hefyd wedi gofyn am i brosiectau Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy gael eu hadnewyddu. Bydd hap-arbedion a newidiadau yr ymrwymwyd iddynt yn cael eu tynnu o'r cyllidebau lle mae hynny'n briodol.

**5.5** Mae'r Comisiynwyr yn awyddus i'r cynllun cyfalaf a'r blaenoriaethau gael eu diweddaru yn wyneb adnoddau sy'n lleihau a'r blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol esblygol. Maent hefyd yn dymuno gweld sylfaen yr asedau eiddo'n cael ei hail-leoli gyda threfniadau cyllido arloesol ac mewn partneriaeth lle mae hynny'n briodol. Mae buddsoddi yn yr isadeiledd TGCh hefyd yn flaenoriaeth.

**6.** Er mwyn gwneud y targedau yn eglurach ac yn fwy penodol, y camau nesaf yw:-

- Nodi targed 5% fesul cyfadran - gwariant gros llai grantiau penodol, ond heb gynnwys yr ysgolion.
- Modelu rhagamcanion cyllidebol ar gyfer ysgolion.
- Cadarnhau'r driniaeth o incwm a gynhyrchir yn y targedau.
- Cadarnhau'r dull o drin grantiau sector gwirfoddol ac ati yn y targedau, a gofynion i ymgynghori gyda'r sefydliadau a rhoi rhybudd iddynt.
- Noddwyr y prosiect RhBFf i adnewyddu proffiliau prosiectau a chytuno gyda'r deilyddion cyllideb berthnasol.
- Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaeth i adolygu cynlluniau arbedion – Cyfarwyddwyr Corfforaethol i benderfynu ar ddyrannu'r targed arbedion rhwng eu gwasanaethau.
- Penaethiaid Gwasanaeth i baratoi ymateb i'r Cynllun Busnes a'r mesurau a'r camau arfaethedig yn unol ag adroddiad 25 Gorffennaf – efallai y bydd angen defnyddio templed bidiau.
- Penaethiaid Gwasanaeth i gwblhau atodlenni arbedion cyllidebol a chanlyniadau.
- Yr Adran Gyllid a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i fonitro'r bwlch cyllidebol yn barhaus.
- Cyllid i barhau i ystyried ac adrodd ar statws cyllidol, yn cynnwys cronfeydd wrth gefn a risgiau.
- Paratoi Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

| **Dd – Sgriwtini ac Ymgysylltiad** |
|---|

**7.1** Mae'r Cyngor wedi bod yn ymgynghori'n eang gyda cydranddalwyr. Cynhaliwyd sioeau teithiol yn y misoedd diwethaf er mwyn rhoi cyfle i'r gymuned roi drosodd eu barn a'u hysbysebu o'r cynllun corfforaethol a'r gyllideb gyfatebol. Yn ogystal, mae ymgynghori â sefydliadau partneriaethol wedi bod yn allweddol wrth osod blaenoriaethau. Defnyddiwyd hefyd y we a ffurfiau electroneg arall o ymgynghori ac ymgysylltu i gasglu safbwyntiau a syniadau ac i ymgysylltu â dinasyddion.

**7.2** Gofynnir i'r Pwyllgorau Sgriwtini ystyried materion cyllidebol sydd o fewn eu cylchoedd gorchwyl eu hunain; efallai y bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dymuno adolygu'r rhagdybiaethau cyffredinol.

**7.3** Bydd adroddiadau gan swyddogion ar gael i fynd gerbron y Pwyllgorau Sgriwtini.

**7.4** Bydd adroddiadau ar ofynion cyfalaf ar gael ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini:

**(a)** parhaus ar gyfer rhaglennu blynyddol
**(b)** fel eithriad ar gyfer y rheini sydd angen cychwyn o'r newydd.

**7.5** Bydd y Comisiynwyr yn gofyn i'r Pwyllgorau Sgriwtini ystyried:

- Yr amcanion polisi ym mharagraff 5.
- Diogelu a chynnydd o 1% i Ysgolion (cyfeirir at baragraff 3.3 ar gyfer y goblygiadau).
- Diogelu a chynnydd o 1% i'r Gwasanaethau Cymdeithasol (cyfeirir at baragraff 3.3 ar gyfer y goblygiadau).
- Arbedion effeithlonrwydd incwm, angen bod yn uwch na'r gyfradd chwyddiant (Mynegai Prisiau Adwerthu yn Hydref = 5.4%, Mynegai Prisiau Defnyddwyr = 5%).
- Rhagdybiaethau mewn perthynas â chwyddiant a risgiau eraill.
- Y ffordd ymlaen ar materion AD.
- Safbwyntiau cychwynnol ar lefel y dreth gyngor.
- Safbwyntiau cychwynnol ar gronfeydd wrth gefn a balansau.

Unrhyw faterion strategol eraill y mae Pwyllgorau Sgriwtini'n dymuno cyflwyno sylwadau arnynt gan nodi'n fuan y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwybodaeth ychwanegol.

| **E – Amserlen** | |
|---|---|
| **8.1** | Mae'r amserlen fanwl ddrafft ar gyfer y gyllideb wedi ei datblygu a'i dosbarthu/cyfathrebu i'r staff perthnasol. Mae hyn yn ceisio cefnogi'r broses cynllunio busnes a chorfforaethol, gan ddod â chyllideb arfaethedig ymlaen ym |

mis Ionawr a chyllideb derfynol erbyn diwedd Chwefror i'w chymeradwyo yn gynnar ym mis Mawrth.

**8.2** Y dyddiadau allweddol yw :-

- Cyhoeddi Datganiad ar y Gyllideb erbyn 25ed Tachwedd
- Y Bwrdd Comisiynwyr 28ain Tachwedd (Datganiad ar y Gyllideb)
- Setliad Terfynol Rhagfyr 2011
- Y Bwrdd Comisiynwyr 16eg Ionawr (Cynigion Cychwynnol ar y Gyllideb)
- Y Bwrdd Comisiynwyr 20fed Chwefror (Cynigion Terfynol ar y Gyllideb)
- Cyngor Sir 6 Mawrth (Gosod y Gyllideb a Phenderfynu ar y Dreth Gyngor)

**8.3** Y dyddiadau allweddol i Sgriwtini yw :-

- Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden – **11 Ionawr 2012** (i'w gadarnhau)
- Pwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau Amgylchedd a Thechnegol – **24 Ionawr 2012**
- Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo – **26 Ionawr 2012**
- Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol – **30 Ionawr 2012**
- Mae'r Prif Bwyllgor Sgriwtini i fod i gyfarfod ar 12 Ionawr 2012, fodd bynnag bydd hynny'n rhy gynnar i drafod cynigion cyllideb. Felly, mae'n debygol, os bydd Cadeirydd y Prif Bwyllgor Sgriwtini yn cytuno, y gelwir cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor yn ystod yr wythnos yn dechrau 30 Ionawr 2012.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad** | **Gill Lewis** |
| **Teitl Swydd** | **Interim Section 151 Officer** |
| **Dyddiad** | **22 November 2011** |

| **Atodiadau:** |
|---|
| |

| **Papurau Cefndirol** |
|---|
| |